

## Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd ar Nos Iau yr 11<sup>eg</sup> o Fai 2017 yn Swyddfa, Parc Menai am 7pm**

### Presennol:

Y Cyng. D Jones-Morris, L James, B Jones, J Pierce, R Jones, C Hughes, M Baines, D W Jones.  
Mr H Griffiths, a Mr R G. Roberts

E Jones (Clerc)

### Ymddiheuriadau:

Y Cyng, T Anwyll-Williams ag A Thomas,

### Cadeirwyd gan Cyng Cynrig E Hughes.

Diolchodd am gael ei ethol yn Gadeirydd yn y Cyfarfod Blyneddol a cyn symud ymlaen i faterion y Cyngor diolchodd i'r cyn Gadeirydd Cyng Dafydd Jones-Morris am ei waith dros y ddwy flynedd ddwaetha.

### Etholiad Mis Mai

Yn dilyn etholiad Mai 4ydd daeth yn amlwg fod gennym ddwy sedd wag yn Ward Glasinfryn.

'Roedd hysbysebion i gyfethol wedi eu rhoi fyny ar y 5ed o Fai.

Cyfetholwyd Mr R G Roberts a Mr H Griffith fel Cynghorwyr a derbyniodd y ddau y swydd.

### Datganiadau derbyn swydd Cynghorwyr.

Cwblhawyd ffurflen derbyn swydd cynghorwyr gan bawb oedd yn bresennol

### Derbyn cofnodion Mis Ebrill

Derbynwyd y cofnodion fel cofnod cywir. Cyng B Jones yn cynnig a Cyng L James yn eilio

### Materion yn codi o'r cofnodion

1. Torri gwair – tra bod cyfle i ganmol rhywfaint 'roedd yn amlwg nad oedd fawr o gasglu wedi digwydd o fewn stad y Rhos ag adroddwyd fod yn amlwg fod dau griw gwahanol yn gyfrifol am dorri tu mewn i'r 30 mya yn Mhentir ag a'r gyffordd i'r A4244.

### Clerc i gysylltu a Gwynedd

2. Canolfan Penrhos

Esbonwyd fod Prydles y Ganolfan yn dod i ben Mis Awst eleni, ag mae y Cyngor yma oedd deilydd y brydles, er bod yna hefyd Bwyllgor Rheoli.

'Roedd y Clerc wedi cysylltu a Chyngor Gwynedd (y perchnogion), yn holi ynglyn a'i bwriad parthed adnewyddu ond heb dderbyn ymateb.

Tra fod Syrfe (Cwmni Dafydd Hardy) a QS wedi ei wneud gan Gwmni Adeiladol ar gostau addasiadau ag ail-adeiladu ymddengys nad oedd fawr wedi datblygu o hynny.

Ers y cyfarfod olaf 'roedd y Cyng r Jones sydd hefyd yn Drysorydd y Ganolfan wedi cysylltu a'r

defnyddwyr ag wedi cyfarfod a Swyddog Adfywio Bro yr Ardal D E Jones

Bydd Cyfarfod Blyneddol y Ganolfan yn cael ei gynnal yn ystod Mis Mehefin

Cynrychiolydd y Cyngor ar y Pwyllgor Rheoli yw'r Cyng Tudur A Williams

Awgrymwyd holi cael rhywun o Cyngor Gwynedd i fynychu ein Is Bwyllgor Cyllid

### Clerc i Gysylltu

### Adroddiad Is-bwyllgor Cyllid

'Roedd cyfrifon ar gyfer y Flwyddyn 2016-17 wedi eu cwblhau a'i cyflwyno yn barod i'r Cyfarfod Blyneddol

'Roedd y Clerc yn dal mewn cyswllt a'r archwilwyr allannol BDO ynglyn a materion oedd yn deillio o adroddiad ariannol 2015-16

➤ Ystyried ffigyrau rhoddion Dan Adran 137

Bu gryn drafodaeth ar y mater yma gan fod y swm o £500 yn swm anrhydeddus iawn yn yr hinsawdd economaidd presennol

Cynnigwyd ag eilwyd cyfrannu £300 i fudiadau lleol a £200 i fudiadau cenedlaethol oedd yn cynnig manteision lleol.

Cynnigwyd gwelliant i fedru ystyried cynnig swm uwch os ystyrir prosiect yn brosiect arbennig

**Cytunwyd yn unfrydol**

➤ Ystyried cyllideb i'w dyrannu dan Adran 137

Ar hyn o bryd clustnodir swm o £5000 ar gyfer ei dyrannu dan Ad 137

**Cytunwyd oherwydd y gostyngiad yn y swm gyfrannir i gadw at yr un gyllideb a'i adolygu ymhen blwyddyn**

**Ceisiadau Cynllunio**

un cais fu gerbron C17/0404/25/LL **DIM GWRTHWYNEBIAD**

**Derbyn/mabwysiadu**

- Polisi Cyfathrebu Cymdeithasol

'Roedd y Cyngor wedi derbyn templed Polisi Cyfathrebu Cymdeithasol gan Unllais oedd wedi ei addasu gan y Clerc ar gyfer Cyngor Cymuned Pentir a'i e-bostio i'r Cyngorhwyfwr.

**Cytunwyd mabwysiadu'r Polisi**

Cytunwyd hefyd yr angen i symud ymlaen i sefydlu Gwefan y Cyngor sydd wedi bod ar y gweill ers tro

**Materion y Clerc**

- Gohebiaethau

Gwahoddiad adnewyddu Yswiriant y Cyngor hefo AON wedi ei dderbyn

- Adroddiad

- Hysbysfyrddau Ffi (£25.00) wedi ei anfon ar gyfer cais cychwynnol cynllunio

- Mapiau

- Angen sicrhau fod y mapiau sydd yma ers dros fis yn cael eu dosbarthu

**Cyngorhwyfwr yn cytuno mynd a rhai o amgylch eu strydoedd**

- Angen cael y mapiau ar gyfer yr hysbysfyrddau yn eu lle

- Holi ynglyn a hawlfraint y mapiau ar gyfer y Wefan

**Clerc i gysylltu a Gareth Roberts i'r 2 bwynt olaf**

- Torri gwair ychwanegol

Trafodwyd yr angen i hefyd chwystrellu mwsog ag ochri y ffordd yn Lon Dywyll a Ffordd Menai

- Noson cyfarfodydd

- Cyngor llawn

Ail Nos Iau y mis ar hyn o bryd

Oherwydd gwahanol resymau 'roedd cyfarfod ar Nos Iau yn pery anhawster i rai

**Cytunwyd cyfarfod ar Nos Fercher am y ddau fis nesaf**

- Is Bwyllgor Cyllid Nos Fercher olaf y mis ar hyn o bryd

**Cadw i'r un drefn**

Materion y Cyngorhwyfwr

Bernard Jones

Derbynwyd adroddiad gynhwysfawr ynhyd a phamphledi am y Gweithdy undydd fynychodd yn Stadiwm Principality yng Nghaerdydd – cynllun hir dymor Bwrdd Dwr Cymru oedd hwn a diolchwyd iddo am ein cynrychioli.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30